

FFURFLEN AMGYLCHIADAU ARBENNIG

Er mwyn sicrhau bod holl fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth yn cael eu trin yn gyfartal, mae angen i'r Brifysgol gael gwybodaeth a thystiolaeth ynghylch unrhyw amgylchiadau arbennig. Bydd y deunydd hwn yn cael ei drin yn gyfrinachol ac ni chaiff ei ddangos i neb ond y sawl sydd ei angen.

Er mwyn i'r Brifysgol fedru ystyried amgylchiadau arbennig, rhaid i chi llenwi pob rhan o'r ffurflen hon ac atodi dystiolaeth i gefnogi'ch achos. Wrth egluro, rhaid ichi ddangos yn glir beth yw effaith eich amgylchiadau arbennig ar aseiniadau penodol yn y modiwlau.

Rhaid cyflwyno copiâu gwreiddiol o dystiolaeth i gefnogi eich amgylchiadau arbennig - os oes angen i chi gadw'r dystiolaeth wreiddiol, bydd adrannau'n trefnu i gopïo a dilysu'r dystiolaeth cyn rhoi'r gwreiddiol yn ôl i chi.

Darllenwch y canllawiau: <https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/taught-schemes/> ac os oes angen, gofynnwch am gyngor yr adran cyn llenwi'r ffurflen.

ENW:

CYFEIRNOD Y MYFYRIWR:

CYNLLUN ASTUDIO:

BLWYDDYN ASTUDIO:

CYFEIRIAD E-BOST:

1. ESBONIWCH YR AMGYLCHIADAU ARBENNIG YR HOFFECH ROI GWYBOD AMDANYNT I'R BWRDD ARHOLI.

(Sylwer y dylech amgáu copiâu o dystiolaeth ddogfennol annibynnol i gadarnhau'r amgylchiadau arbennig e.e. papurau meddygol, llythyrau oddi wrth eich meddyg neu'ch cyngorwr neu dystiolaeth ategol arall).

A YW'R DYSTIOLAETH WEDI EI HAMGÁU? **YDY** **NAC YDY**

Noder: ni allwn ystyried eich amgylchiadau arbennig heb y dystiolaeth briodol.

- 2. RHESTRWCH ISOD Y MODIWL(AU) SY’N CAEL EU HEFFEITHIO GAN YR AMGYLCHIADAU ARBENNIG, YN CYNNWYS Y MATH O ASESIAD YR EFFEITHIR ARNO, E.E. DARN O WAITH CWRS, YR ARHOLIAD, GWAITH YMARFEROL SY’N CAEL EI ASESU, A’R DYDDIAD PAN EFFEITHIUYD AR Y MODIWLAU NEU’R ASESIADAU HYN GAN YR AMGYLCHIADAU ARBENNIG,** ee. Modiwl GK10120 cyflwyniad llafar ar 8 Tachwedd; GK10320 dyddiad cau’r traethawd ar 15 Tachwedd. Gellid efallai dderbyn absenoldeb nad oes modd ei osgoi o asesiad a gynhelir mewn dosbarth oherwydd bod myfyriwr yn cynrychioli Prifysgol Aberystwyth mewn chwaraeon prifysgol swyddogol, ond rhaid cyflwyno cadarnhad swyddogol oddi wrth Undeb y Myfyrywr fel tystiolaeth ategol bod y myfyriwr yn cynrychioli’r Brifysgol.

- 3. NODWCH YR EFAITH A GAFODD YR AMGYLCHIADAU ARBENNIG AR EICH PERFFORMIAD ACADEMAIDD.**

- 4. RHOWCH UNRHYW WYBODAETH ARALL NAD YDYCH WEDI EI RHOI UCHOD.**

Rwy’n deall y bydd yr wybodaeth a roddais uchod yn cael ei dosbarthu i aelodau perthnasol o'r staff i ddiben arolygu’r amgylchiadau arbennig a gofnodais, a effeithiodd ar fy mherfformiad academaidd. Deallaf y bydd yr wybodaeth yn cael ei phrosesu a’i chadw yn ôl yr angen er mwyn i'r Brifysgol gyflawni tasgau er budd y cyhoedd (GDPR Erthygl 6(1)(e) ac o dan ei rhwymedigaethau contractiol (GDPR Erthygl 6(1)(b)). Bydd yn cael ei chadw am flwyddyn ar ôl i mi gwblhau fy nghwrs, oni bai bod apêl neu achwyniad yn cael ei wneud, ac mewn achos o'r fath y gellid ymestyn y cyfnod cadw. Os oes gwybodaeth sensitif wedi ei chynnwys yn y ffurflen, neu gyda’r ffurflen, rwyf yn rhoi fy nghaniatâd iddi gael ei defnyddio i ddibenion trefn Amgylchiadau Arbennig y Brifysgol:

LLOFNOD:

DYDDIAD:

SYLWER:

EICH CYFRIFOLDEB CHI YW SICRHAU BOD COPI O’R FFURFLEN HON YNGHYD Â’R DYSTIOLAETH BETHNASOL YN CAEL EU HANFON AT BOB UN ADRAN LLE’R YDYCH YN CYMRYD MODIWLAU. OS OES ANGEN I CHI GYFLWYNO TYSTIOLAETH I SAWL ADRAN, DIM OND EICH PRIF ADRAN FYDD YN GORFOD DERBYN Y DYSTIOLAETH WREIDDIOL. GELLIR RHOI LLUNGOPI I’R ADRANNAU PERTHNASOL ERAILL.

